# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Hyfforddiant Cam 3 a 4 BHS (Gofal ac Arwain)



**Yn gryno**

Er mwyn datblygu eich sgiliau marchogaeth a gwybodaeth am ofalu am geffylau y tu hwnt i Gam 2 BHS, bydd y cwrs hwn yn eich paratoi ar gyfer y cymhwyster Cam 3 BHS ac yn cwmpasu ystod o bynciau ymarferol a damcaniaethol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... Y rheini sydd yn chwilio i symud ymlaen drwy'r llwybrau BHS

... Yn berchnogion ceffylau angerddol sydd yn chwilio i ddatblygu eu sgiliau

... Unrhyw un sydd yn chwilio i hyfforddi ar gyfer asesiadau Cam 3 a 4 Gofal ac Arwain Cymdeithas Ceffylau Prydain (British Horse Society - BHS)

... Y rheini sydd yn symud ymlaen i rôl uwch yn y diwydiant ceffylau

**Cynnwys y cwrs**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gan symud ymlaen o Gam 2 BHS, bydd y cwrs hwn yn cynnwys:

Gofalu am Geffylau

Dewis, ffitio a gwerthuso ystod o offer arbenigol
Maeth, ffitrwydd a ffisioleg ceffylau
Cydymffurfiad ac iechyd ceffylau
Gofalu am wahanol grwpiau o geffylau, gan gynnwys cesig, ebolion a stoc ifanc

Arwain (Lunging)

Arwain ceffyl fel ymarfer corff
Dangos gwelliant mewn symudiad y ceffyl
Arwain dros bolion
Defnyddio cymhorthion arwain yn gywir

Bydd angen i chi feddu ar eich het farchogaeth eich hun i safonau cyfredol y BHS yn ogystal â chlôs pen-glin ac esgidiau marchogaeth. Bydd y cwrs yn eich paratoi ar gyfer adrannau Gofal ac Arwain yr asesiadau Cam 3 a 4 BHS.

**Gofynion Mynediad**

Er nad oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, dylech fod wedi ennill y cymhwyster Cam 2 BHS neu feddu ar sgiliau a phrofiad ar y lefel hon.

Dylai dysgwyr fod yn 19 mlwydd oed o leiaf.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg gan un o'n hyfforddwyr BHS cymwysedig ac mae'n rhedeg gyda'r nos.

Bydd rhaid i chi feddu ar het farchogaeth wedi'i ffitio'n gywir sydd yn bodloni safonau diogelwch cyfredol, esgidiau iard neu esgidiau trwm a menig.

Noder y dyluniwyd y cwrs hwn i baratoi dysgwyr ar gyfer adrannau Gofal ac Arwain y cymwysterau Cam 3 a 4 BHS, fodd bynnag, nid yw'r cwrs hwn yn cynnwys asesiadau.